

2022 Rhif (Cy.)

2022 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A55
(Cyffordd 10 (Cyfnewidfa Ffordd
Caernarfon), Bangor, Gwynedd i
Gyffordd 8 (Cyfnewidfa
Llanfairpwll), Ynys Môn)
(Gwaharddiadau a Chyfyngiadau
Traffig Dros Dro) 2022

The A55 Trunk Road (Junction 10
(Caernarfon Road Interchange),
Bangor, Gwynedd to Junction 8
(Llanfairpwll Interchange),
Anglesey) (Temporary Traffic
Prohibitions & Restrictions) Order
2022

Gwnaed 16 Mehefin 2022
Yn dod i rym 22 Mehefin 2022

Made 16 June 2022
Coming into force 22 June 2022

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A55, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a/neu gyfyngu arno ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A55 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited and/or restricted because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi a chychwyn

Title and commencement

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 10 (Cyfnewidfa Ffordd Caernarfon), Bangor, Gwynedd i Gyffordd 8 (Cyfnewidfa Llanfairpwll), Ynys Môn) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2022 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 22 Mehefin 2022.

1. The title of this Order is the A55 Trunk Road (Junction 10 (Caernarfon Road Interchange), Bangor, Gwynedd to Junction 8 (Llanfairpwll Interchange), Anglesey) (Temporary Traffic Prohibitions & Restrictions) Order 2022 and this Order comes into force on 22 June 2022.

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1); a
- (b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—
 - (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
 - (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 19:00 o'r gloch ar 22 Mehefin 2022 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw darn o gefnffordd yr A55 Caer i Fangor a chefnffordd yr A55 Llundain i Gaergybi sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 10 (Cyfnewidfa Ffordd Caernarfon), Gwynedd hyd at ganolbwynt Cyffordd 8 (Cyfnewidfa Llanfairpwll), Ynys Môn;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Gwaharddiadau a chyfyngiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar gerbyttffordd tua'r dwyrain na cherbyttffordd tua'r gorllewin y darn o'r gefnffordd.

(1) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddau Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddau a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

Interpretation

2. In this Order—

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means:

- (a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(1); and
- (b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—
 - (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
 - (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the length of the A55 Chester to Bangor trunk road and the A55 London to Holyhead trunk road that extends from the centre of Junction 10 (Caernarfon Road Interchange), Gwynedd to the centre of Junction 8 (Llanfairpwll Interchange), Anglesey;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 19:00 hours on 22 June 2022 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are permanently removed.

Prohibitions and restrictions

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on either the eastbound or westbound carriageway of the length of the trunk road.

(1) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c. 21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

4. Tra bo traffig yn cael ei wahardd rhag symud ar y gerbyttfordd tua'r dwyrain gan erthygl 3 ond, yn unol ag erthygl 15, nad yw'n cael ei wahardd rhag symud ar y gerbyttfordd tua'r gorllewin, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar lôn allanol cerbyttfordd tua'r gorllewin y gefnffordd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r dwyrain.

5. Tra bo traffig yn cael ei wahardd rhag symud ar y gerbyttfordd tua'r gorllewin gan erthygl 3 ond, yn unol ag erthygl 15, nad yw'n cael ei wahardd rhag symud ar y gerbyttfordd tua'r dwyrain, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar lôn allanol cerbyttfordd tua'r dwyrain y gefnffordd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r gorllewin.

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd sy'n 3.2 metr o led neu'n lletach ar y darn o'r gefnffordd.

7. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

8. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

9. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

10. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 20 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

11. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

12. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 11 yn weithredol.

13. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darn o'r gefnffordd.

14. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darn o'r gefnffordd.

Cymhwysio

15.—(1) Nid yw'r gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10, 11, 12, 13 a 14 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan

4. Whilst movement of traffic is, by article 3, prohibited in the eastbound carriageway but, pursuant to article 15, not prohibited in the westbound carriageway, no person may, during the works period, drive any vehicle in the offside lane of the westbound carriageway of the length of the trunk road in any direction other than eastwards.

5. Whilst movement of traffic is, by article 3, prohibited in the westbound carriageway but, pursuant to article 15, not prohibited in the eastbound carriageway, no person may, during the works period, drive any vehicle in the offside lane of the eastbound carriageway of the length of the trunk road in any direction other than westwards.

6. No person may, during the works period, drive any vehicle with a width of or greater than 3.2 metres on the length of the trunk road.

7. No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 50 miles per hour on the length of the trunk road.

8. No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 40 miles per hour on the length of the trunk road.

9. No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 30 miles per hour on the length of the trunk road.

10. No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 20 miles per hour on the length of the trunk road.

11. No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 10 miles per hour on the length of the trunk road.

12. No person may, during the works period, use or permit the use of a vehicle, other than an exempted vehicle, in such a way that it overtakes any other vehicle on the length of the trunk road during such times as the restriction referred to in article 11 is in operation.

13. No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the length of the trunk road.

14. No pedestrian may, during the works period, proceed on the length of the trunk road.

Application

15.—(1) The prohibitions and restrictions in articles 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10, 11, 12, 13 and 14 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limits imposed by this Order apply to

y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Atal dros dro

16. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau modur ar y darn o'r gefnffordd wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 7, 8, 9, 10 ac 11 yn gymwys.

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

17. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

16 Mehefin 2022

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

an exempted vehicle.

Suspension

16. Any statutory provisions restricting the speed of motor vehicles on the length of the trunk road are suspended during such times as the restrictions specified in articles 7, 8, 9, 10 and 11 apply.

Duration of this Order

17. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated

16 June 2022

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

